COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL
2004/2005

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2004/2005

Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, parhaodd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn i ddarparu swyddogaethau Ysgrifenyddol i Gomisiwn Ffiniau Cymru ar gyfer ei Bumed Adolygiad Cyffredinol o etholaethau Seneddol Cymru a'r Adolygiad Cyntaf o Ranbarthau Cynulliad Cymru. Cymerodd y gweithgareddau hyn lawer o amser ein staff ac roeddent yn cynnwys nifer o ymchwiliadau cyhoeddus o amgylch y wlad. Cwblhawyd yr Adolygiad a chyflwynwyd yr Adroddiad Terfynol i Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn Ionawr 2005.

Ar yr un pryd, rydym wedi ymgymryd ag ystod o waith o fewn y pwerau statudol sy'n llywodraethu'n gweithgarwch. Dechreuodd y Comisiwn ar adolygiad o'r ffin rhwng Siroedd Ceredigion a Phenfro yng nghyffiniau Cilgerran, gan gyhoeddi eu Cynigion Drafft yn Rhagfyr 2004. Yn ogystal, ym Medi 2004 dechreuodd y Comisiwn adolygiad o'r ffin rhwng Cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Caiff manylion ein hadolygiadau eu cynnwys yn yr adroddiad, ond rhaid i mi bwysleisio unwaith eto mai cyflwyno cynigion er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus mewn modd annibynnol a gwrthrychol yw ein prif amcan. Rhan hanfodol o'n holl waith yw'n gweithdrefnau ymgynghori; rydym yn ceisio eu gwneud mor gynhwysfawr â phosibl ac mor briodol â phosibl i raddfa'r adolygiad. Rydym yn ddiolchgar am yr holl sylwadau sy'n dod i law. Rhoddir ystyriaeth ofalus i bob un wrth i ni asesu tystiolaeth cyn dod i'n casgliadau, er y bydd rhai pobl yn anochel yn cael eu siomi weithiau gan ein casgliadau.

I gloi, hoffwn ddiolch unwaith eto i'm cyd Gomisiynwyr a phob aelod o'n Hysgrifenyddiaeth fach am eu cymorth parhaus drwy gydol y flwyddyn.



Mrs. SUSAN SMITH LLB
Cadeirydd

CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD 1

- Y Comisiwn……. 1
- Aelodaeth……. 1
- Yr Ysgrifenyddiaeth…… 1
- Dyletswyddau Statudol…..…….. 2
- Gweithdrefn Adolygu…….. 3

2. AMCANION 4

- Targedau…… 4

3. GWEITHGARWCH YN YSTOD Y FLWYDDYN FLAENOROL 5

- Adolygiadau o Brif Ardaloedd…….. 5
- Adolygiadau Cymunedol…….. 5

4. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2004/05 6

- Adolygiadau o Brif Ardaloedd…….. 6
- Adolygiadau Cymunedol…….. 6
- Prosiect Ffiniau Wardiau Cymunedol 6

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER 7

- Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau…… 7
- Cyllideb ac Archwiliad…… 7
- Cynllun Iaith Gymraeg…… 8
- Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth…… 8

6. DATGANIAD ARIANNOL CRYNO 9

1. CYFLWYNIAD

Y Comisiwn

1.1 Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ym mis Mehefin 1974 o dan delerau Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972). Dynodir swyddogaethau statudol y Comisiwn yn Adrannau 54 i 78 Deddf 1972 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (Deddf 1994). Darpara Atodlen 8 i Ddeddf 1972 ar gyfer cyfansoddiad a threfniadau'r Comisiwn.

1.2 Diben y Comisiwn yw:

Cynnal adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried a ddylid cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Aelodaeth

1.3 ***O 1af Ebrill 2004 i 31ain Mawrth 2005:***

Cadeirydd: Mrs S. G. Smith LLB
Dirprwy Gadeirydd: Mr J. E. Davies ICSA IPFA
Aelod: Mr. D. H. Roberts BSc DMS MBCS MIMgt

Gwneir apwyntiadau i'r Comisiwn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Ailbenodwyd Mrs. Susan Smith yn Gadeirydd o'r 1af Ionawr 2005. Ailbenodwyd Mr. John E. Davies a Mr. Dennis H. Roberts o'r dyddiad hwnnw hefyd. Mr. John Davies, Dirprwy Gadeirydd, oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Mae'n rhaid i'r Comisiwn gael o leiaf un siaradwr Cymraeg ac mae Mr. Davies a Mr. Roberts yn bodloni'r gofyniad hwn.

Mae'r Comisiynwyr ar hyn o bryd yn aelodau o gyrff cyhoeddus eraill. Mae Mrs. Smith yn aelod o Gomisiwn Ffiniau Cymru, yn Gadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Penfro, yn Ddyfarnwr Annibynnol dros Awdurdodau Lleol yng Nghymru (dan Ddeddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989). Mae'n Gyfarwyddwr Bwrdd Cyllid Esgobaeth Llandaf (Yr Eglwys yng Nghymru) ac yn Gadeirydd eu Bwrdd Persondy. Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn gwmni cyfyngedig trwy warant. Mae Mr Davies yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-Orllewin Cymru ac yn ystod y flwyddyn roedd yn Gadeirydd Panel Tâl Annibynnol Cymru.

Cynhelir cyfarfodydd y Comisiwn mor aml ag y bydd y rhaglen waith yn mynnu. Mae'n arfer cyffredin gan y Comisiwn ymweld â lleoliad adolygiadau, yn enwedig mewn perthynas ag adolygiadau ardaloedd (ffiniau). Er budd effeithlonrwydd, caiff archwiliadau safle eu cyfuno â chyfarfodydd y Comisiwn lle bynnag y bo'n bosibl. Cynhaliwyd saith o gyfarfodydd yn ystod 2004/05.

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol y Comisiwn, tra bod contractau'n bodoli i ddarparu gwasanaethau archwiliad mewnol, cyfreithiol, cyfrifo, cyfieithu ac argraffu.

Yr Ysgrifenyddiaeth

1.4 Lleolir ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn Nhŷ Caradog, 1-6 Plas St Andreas, Caerdydd. Ar ddechrau'r flwyddyn roedd 5 aelod o staff. Llenwir swydd yr Ysgrifennydd gan un o gyflogeion uniongyrchol y Comisiwn yn rhan amser, tra roedd y 4 aelod arall yn weision sifil ar secondiad o Gynulliad Cenedlaethol Cymru: 3 yn gweithio'n amser llawn ac 1 yn gweithio'n rhan-amser.

1.5 O 1 Ionawr 2002, ymgymerodd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn â chyfrifoldeb i ddarparu Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ar gyfer ei Bumed Adolygiad Cyffredinol o etholaethau Seneddol yng Nghymru dan Femorandwm Cytundeb rhwng y Comisiwn, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Adran Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cychwynnodd Pumed Adolygiad Cyffredinol Comisiwn Ffiniau i Gymru ym mis Rhagfyr 2002 ac fe'i cwblhawyd ar 31 Ionawr 2005.

Dyletswyddau Statudol

1.6 Prif ddyletswyddau'r Comisiwn yw:

Ardaloedd Llywodraeth Leol

i) Cynnal adolygiadau o'r holl brif ardaloedd yng Nghymru at ddiben ystyried a ddylid cynnig newidiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymddangos yn rhai sy'n ddymunol i'r Comisiwn er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus;

ii) Ystyried ceisiadau am adolygiadau gan awdurdodau lleol;

iii) Ystyried adroddiadau a wneir gan brif gynghorau mewn perthynas ag adolygiadau ardaloedd cymunedol a gynhaliwyd ganddynt a gwneud argymhellion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Trefniadau Etholiadol

iv) O dan ddarpariaethau'r adran 64 newydd a ychwanegwyd at Ddeddf 1972 gan Adran 6 Deddf 1994, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer unrhyw un o'r prif ardaloedd yng Nghymru a gynhaliwyd ym 1995 roedd yn ofynnol i'r Comisiwn:

   a) Cynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardal honno gyda'r bwriad o ystyried y trefniadau etholiadol yn y dyfodol; a

   b) Llunio cynigion ar gyfer y trefniadau hynny; a

v) Heb fod yn llai na deg nac yn fwy na phymtheng mlynedd ar ôl cwblhau'r adolygiad cychwynnol ac wedi hynny, ar gyfnodau tebyg, cynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru.

Cyfarwyddiadau

vi) Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i gynnal adolygiad o Gymru gyfan, neu o unrhyw un neu fwy o ardaloedd llywodraeth leol neu rannau o ardaloedd o'r fath yng Nghymru.

Gweithdrefn Arolygu

1.7 Mae Adran 60 Deddf 1972 yn diffinio'r canllawiau gweithdrefnol sydd i'w dilyn wrth ymgymryd â phob adolygiad. Camau sylfaenol adolygiad yw:

i) Cyhoeddi dyddiad dechrau'r adolygiad pan wahoddir awgrymiadau a sylwadau cychwynnol erbyn dyddiad penodol;

ii) Cyhoeddi cynigion drafft y Comisiwn pan wahoddir sylwadau arnynt yn yr un modd erbyn dyddiad penodol; a

iii) Cyhoeddi cynigion terfynol pan ddylai unrhyw sylwadau pellach gael eu cyfeirio ar ôl hyn at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2 AMCANION

2.1 Noddir y Comisiwn gan Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Comisiwn yn destun Adolygiadau Polisi bob pum mlynedd. Mae'r rhain yn darparu canllawiau strategol a pholisi tymor canolig ar gyfer cynlluniau blynyddol y Comisiwn. Dechreuodd y cyfnod cynllunio strategol diwethaf gydag Adolygiad Polisi o'r Comisiwn a gynhaliwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2001.

Targedau

2.2 Mae'r cyfarwyddiadau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r Comisiwn gynnal adolygiadau ardal yn cynnwys terfynau amser penodedig, a bennir yn ôl ystyried cymhlethdod pob adolygiad. Nod y Comisiwn yw cwblhau adolygiadau ardal a gynhelir ar gais awdurdodau lleol o fewn deuddeg mis.

2.3 Caiff y gweithdrefnau i'w dilyn wrth gynnal adolygiad eu diffinio yn ôl statud, gan ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn hysbysu ac ymgynghori'n eang ac ystyried sylwadau cyn gwneud unrhyw gynigion terfynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.4 Nid oes unrhyw gyfnodau amser statudol ar gyfer yr ymgynghoriad nac unrhyw un o gamau eraill y gweithdrefnau, ac fe'u gweithredir yn ôl disgresiwn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r angen i ddarparu digon o amser i awdurdodau lleol a phobl eraill sydd â diddordeb gyflwyno eu safbwyntiau. Gosodir targedau o fewn deuddeg mis i adolygiad ar gyfer y camau cyhoeddusrwydd ac ymgynghori, cynhyrchu adroddiadau drafft a therfynol a'r amser sydd ei angen i asesu'r materion dan sylw. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried amgylchiadau penodol weithiau ac, oni bai bod terfynau amser penodedig yn bodoli, maent yn hyblyg wrth gadw at dargedau.

3. GWEITHGARWCH YN YSTOD Y FLWYDDYN FLAENOROL

Adolygiadau o Brif Ardaloedd

3.1 Roedd y Comisiwn wedi dechrau adolygiad o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch yn Ebrill 2002. Yn dilyn derbyn sylwadau cychwynnol, cyhoeddodd y Comisiwn eu Cynigion Terfynol ym Mai 2003.

3.2 Ar ôl cychwyn adolygiad o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch, roedd y Comisiwn o'r farn fod yr ardal o dan sylw yn rhy fawr i'w chwmpasu gan un adolygiad. Cychwynnwyd ar ail adolygiad ganddynt felly o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Gaerfyrddin yn ardal Cwmllynfell. Cyhoeddodd y Comisiwn eu Cynigion Terfynol ym Mawrth 2004.

Adolygiadau Cymunedol

3.3 Parhaodd y Comisiwn i adolygu'r ffin rhwng cymunedau Dyffryn Clydach a Blaenhonddan ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a chafodd gais tebyg i adolygu'r ffin rhwng cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, penderfynodd y Comisiwn beidio â symud ymlaen â'r rhain a cheisiwyd cyfarwyddyd oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

3.4 Yn ystod 2003/04 cwblhaodd y Comisiwn adolygiad cymunedol. Dechreuodd yr adolygiad o'r ffin rhwng Cymunedau Aberhonddu a Llanfrynach ym Mai 2002 o ganlyniad i gais a wnaed i'r Comisiwn gan Gyngor Sir Powys. Cwblhawyd yr adolygiad hwn a chyhoeddwyd y Cynigion Terfynol yn Rhagfyr 2003.

4. GWAITH Y COMISIWN YN YSTOD 2004/2005

Adolygiadau o Brif Ardaloedd

4.1 Dechreuodd y Comisiwn adolygiad o'r ffin rhwng Siroedd Ceredigion a Phenfro yng nghyffiniau Cilgerran, gan gyhoeddi eu Cynigion Drafft yn Rhagfyr 2004.

Adolygiadau Cymunedol

4.2 Ar ôl cael Cyfarwyddyd oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 31 Gorffennaf 2004, dechreuodd y Comisiwn adolygiad o'r ffin rhwng cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym Medi 2004.

Prosiect Ffiniau Wardiau Cymunedol

4.3 Dechreuodd y Comisiwn brosiect i ddal yn ddigidol ffiniau Wardiau Cymunedol yng Nghymru. Dyfarnwyd y tendr ar gyfer y cyfnod cyntaf, sganio mapiau Gorchmynion Cymunedol, ym mis Hydref 2004. Bydd ail gyfnod y prosiect, sef trosi'r ffiniau cymunedol a sganiwyd yn ddata mapio, yn dechrau yn ystod 2006/07.

5. RHEOLAETH GORFFORAETHOL: POLISÏAU AC ARFER

Datganiad Rheoli, Memorandwm Ariannol a Chodau

5.1 Mae Datganiad Rheoli a Memorandwm Ariannol cysylltiedig yn disgrifio'r berthynas rhwng y Comisiwn a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Cynlluniau Gweithredol Blynyddol ac Adroddiadau Blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion cynllunio, cyllidebu ac asesu perfformiad. Cynhelir cyfarfodydd cyswllt chwarterol a chyfarfod adolygiad blynyddol gydag isadran nawdd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gwahoddwyd y Comisiwn i gyflwyno eu Hadroddiad a Chyfrifon Blynyddol i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Ebrill 2005.

5.2 Mabwysiadwyd Cod Arfer Gorau ar gyfer Comisiynwyr ac mae cofrestr o fuddiannau ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol y Comisiynwyr ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio. Gellir trefnu i'w gweld drwy gysylltu â'r Ysgrifennydd yn swyddfeydd y Comisiwn. Mae yna god tebyg mewn perthynas â staff.

5.3 Mae'r Comisiwn yn cwrdd fel Pwyllgor Archwilio, wedi'i gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio dair gwaith.

5.4 Mabwysiadwyd arferion gwaith sy'n gytûn ag egwyddorion gonestrwydd, ymgynghori a chymwynasgarwch. Er enghraifft, rhydd y Comisiwn gyhoeddusrwydd eang i'w bwriad i gynnal pob adolygiad ac ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw, ac ymweld ag ef, i drafod yr adolygiad a gwahodd eu sylwadau cychwynnol. Ar gyfer pob adolygiad mae'r Comisiwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ar eu cynigion drafft a'u cynigion terfynol a darperir digon o gopïau o'r adroddiadau i alluogi iddynt gael eu dosbarthu am ddim i bob aelod o'r prif gyngor, cynghorau cymuned a llyfrgelloedd lleol. Mae nifer o gopïau ar gael hefyd i drigolion lleol ar gais. Rhydd gwefan y Comisiwn: www.cflll-cymru.gov.uk wybodaeth am y Comisiwn, cynnydd yr adolygiadau a chyfle i weld adroddiadau blaenorol. Yn ystod y flwyddyn mabwysiadodd y Comisiwn Gynllun Parhad Busnes a Pholisi Chwythu Chiban.

5.5 Ym mis Hydref 2004, cynhaliodd y Comisiwn eu seithfed Cyfarfod Agored Blynyddol, yng Ngwesty'r Parc Treftadaeth, y Rhondda y tro hwn. Y siaradwyr gwadd yn y cyfarfod oedd Sue Essex (Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus), Kim Ryley (Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) a'r Cynghorydd Dave Street (Cadeirydd Un Llais i Gymru).

Cyllideb ac Archwiliad

5.6 Roedd gwariant y Comisiwn ar gostau staff, taliadau gweithredol eraill a chaffaeliadau o asedion sefydlog yn ystod 2004/2005 o £272,281 ar sail ariannol o fewn y dyraniad cymorth grant ar gyfer y flwyddyn sef £354,000. Mae'r Comisiwn yn ymrwymedig i gyflawni gwerth am arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.

5.7 Er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian mae cyfres gynhwysfawr o gyfarwyddiadau desg sy'n ymwneud â systemau a gweithdrefnau mewn grym. Archwilwyr mewnol y Comisiwn oedd Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cynnal yr archwiliad allanol o gyllid y Comisiwn.

Cynllun Iaith Gymraeg

5.8 Dymuna'r Comisiwn gadarnhau y gall y cyhoedd ddelio â hwy yn Gymraeg. Ym mis Gorffennaf 1998, mabwysiadodd y Comisiwn eu Cynllun Iaith Gymraeg yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Gorchymyn Cynlluniau yr Iaith Gymraeg (Cyrff Cyhoeddus) 1996. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyhoeddi eu chweched adroddiad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar weithrediad y cynllun. Yn gryno, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r mesurau, yr amserlen a'r targedau a nodir yn eu cynllun. Cynhwysir tystiolaeth o'r ymrwymiad i'r **egwyddor y bydd y Comisiwn, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal** yn y ffaith bod yr holl adroddiadau a'r cyhoeddusrwydd y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad Blynyddol hwn wedi cael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Fodd bynnag mae'r cynllun hefyd yn cynnwys llawer o fesurau manwl eraill i ategu'r egwyddor a gellir darparu copi o'r adroddiad llawn ar gais neu gellir cael gafael arno ar wefan y Comisiwn.

Hyfforddiant a Thechnoleg Gwybodaeth

5.9 Yn ystod 2004/05 daeth y Comisiwn yn rhan o bartneriaeth MERLIN y Cynulliad Cenedlaethol sydd wedi parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o ofynion TG y Comisiwn, yn galedwedd ac yn feddalwedd. Mae hyn wedi cynyddu effeithlonrwydd TG y Comisiwn ac wedi lleihau'n fawr y risgiau sy'n gysylltiedig â methiant TG a'i hadnewyddu.

5.10 Mynychwyd cyrsiau hyfforddiant datblygu staff yn ystod y flwyddyn.

6. ADRODDIAD ARIANNOL CRYNO

COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

ADRODDIAD ARIANNOL CRYNO

Mae'r Datganiad Ariannol hwn yn rhoi crynodeb o gyfrifon Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth ddigonol i ganiatáu ar gyfer dealltwriaeth lawn o'r canlyniadau a sefyllfa ariannol Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. I gael gwybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon archwiliedig llawn ac adroddiad yr archwilydd ar y cyfrifon hynny. Mae copi o'r cyfrifon archwiliedig, sy'n cynnwys y wybodaeth fanwl sy'n ofynnol o dan y gyfraith ac o dan ganllawiau arfer gorau, ar gael, yn rhad ac am ddim, oddi wrth y Swyddog Cyllid, Tŷ Caradog, 1-6 Plas St Andreas, Caerdydd CF10 3BE.

Cefndir Statudol

Sefydlwyd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (y Comisiwn) o dan delerau Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) at ddibenion adolygu ardaloedd a threfniadau etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru yn gyson. Swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn, fel y'i nodwyd yn neddf 1972, yw "cyflwyno cynigion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn yn rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus". Caiff ei gyllido drwy gymorth grant blynyddol oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Adolygiad o'r flwyddyn a Datblygiadau yn y Dyfodol

Adolygiadau o Ffiniau a Chymunedau oedd y rhan fwyaf o waith y Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Fel a fanylir yn yr Adroddiad Blynyddol, dechreuodd y Comisiwn adolygiad o'r ffin rhwng Sir Benfro a Cheredigion a hefyd dechrau adolygiad o'r ffin rhwng Cymunedau Bracla a Choety Uchaf ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ymgymerodd Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn â chyfrifoldeb darparu Ysgrifenyddiaeth i Gomisiwn Ffiniau Cymru ar gyfer ei Bumed Adolygiad Cyffredinol o'r etholaethau Seneddol yng Nghymru. Dechreuodd Pumed Adolygiad Cyffredinol Comisiwn Ffiniau Cymru yn Rhagfyr 2002 a'i gwblhau ar 31 Ionawr 2005. Bydd adolygiadau pellach o drefniadau etholiadol yn dibynnu ar unrhyw gyfarwyddiadau, a all gael eu rhoi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu geisiadau oddi wrth brif gynghorau. Mae rhwymedigaeth barhaus gan y Comisiwn i adolygu ardaloedd y prif gynghorau'n gyson ac i roi ystyriaeth i unrhyw argymhellion a gyflwynir gan brif gynghorau mewn perthynas ag adolygiadau o ardaloedd cymunedau a gynhelir ganddynt.

Aelodaeth y Comisiwn

Aelodau'r Comisiwn yn ystod 2004/05 oedd Mrs S G Smith LLB (Cadeirydd), Mr J E Davies ICSA IPFA (Dirprwy Gadeirydd) a Mr D H Roberts BSc DMS MBCS MCMI (Aelod).

DATGANIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Rwyf wedi archwilio'r datganiad ariannol cryno ar dudalennau 10 – 11, a baratowyd ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn nodyn 1 ar dudalen 12.

Priod gyfrifoldebau'r Comisiwn, yr Ysgrifennydd a'r Archwilydd

Cyfrifoldeb y Comisiwn a'r Ysgrifennydd yw'r datganiad ariannol cryno. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn i chi am ei baratoi ac a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol llawn a'r rhagair. Rwyf yn darllen hefyd y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiad amlwg neu anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

Sail y Farn

Cynheliais f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio y Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio.

Barn

Yn fy marn i, mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a rhagair Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 ac wedi ei baratoi'n briodol ar y sail a nodir yn nodyn 1 i'r datganiad ariannol cryno.

Jeremy Colman
Archwilydd Cyffredinol Cymru
23 Mehefin 2005

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
3-4 Park Grove
Caerdydd
CF10 3PA

CYFRIF INCWM A GWARIANT
ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005

	2005	2004
	£	£
INCWM GROS		
Cymorth grant	**288,365**	301,901
Trosglwyddo o Gronfa Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth	**8,329**	9,912
	296,694	311,813
GWARIANT		
Costau staff	**133,725**	132,911
Dibrisiant	**8,329**	9,912
Cost dybiannol y tâl cyfalaf	**675**	969
Costau gweithredu eraill	**154,384**	173,305
	297,113	317,097
Gwarged/(diffyg) gweithredu	**(419)**	(5,284)
Llog a dderbyniwyd	**221**	159
Elw wrth waredu asedau sefydlog	**278**	145
Gwrthdroi cost dybiannol y tâl cyfalaf	**675**	969
Swm a ildiwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru	**(186)**	(187)
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn a drosglwyddwyd i'r cronfeydd wrth gefn	**569**	(4,198)
DATGANIAD CRONFEYDD CADW		
Gwarged wedi'i gadw a ddygwyd ymlaen	**4,797**	8,995
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn	**569**	(4,198)
Gwarged wedi'i gadw a gariwyd ymlaen	**5,366**	4,797

Ystyrir pob gweithgaredd yn weithgaredd parhaus

MANTOLEN
ar 31 Mawrth 2005

	2005		2004	
	£	**£**	£	£
ASEDAU SEFYDLOG				
Asedau Sefydlog Diriaethol		**15,579**		22,990
ASEDAU CYFREDOL				
Dyledwyr a rhagdaliadau	**1,882**		690	
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	**35,442**		18,424	
	37,324		19,114	
CREDYDWYR				
Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	**(31,958)**		(14,317)	
ASEDAU CYFREDOL NET		**5,366**		4,797
CYFANSWM YR ASEDAU NET		**20,945**		27,787
ARIANNWYD GAN				
Cronfa Wrth Gefn Grantiau'r Llywodraeth		**15,579**		22,990
Cyfrif Incwm a Gwariant		**5,366**		4,797
CRONFEYDD Y LLYWODRAETH		**20,945**		27,787

NODIADAU I'R DATGANIAD ARIANNOL CRYNO

1. Confensiynau Cyfrifo

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985 a'r safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo i'r graddau bod y gofynion hynny'n gymwys. Mae'r Comisiwn wedi'i eithrio rhag y gofyniad i gynhyrchu nodyn o enillion a cholledion cost hanesyddol o dan Safon Cofnodi Ariannol Rhif 3.

2. Canlyniadau ac arian a neilltuwyd

Corff cyhoeddus a noddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru. Cyfanswm ei gymorth grant a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2005 oedd £289,283. O'r swm hwn roedd £918 ar gyfer gwariant cyfalaf. Y gwarged am y cyfnod oedd £569 a throsglwyddwyd hwn i'r gronfa wrth gefn.

3. Costau Staff ac Aelodau

	2005 **£**	2004 £
Tâl Aelodau'r Comisiwn	**12,049**	12,075
Cyflogau	**99,775**	99,709
Yswiriant Gwladol Cyflogwyr	**8,217**	7,912
Costau pensiwn eraill	**13,684**	13,215
Cyfanswm	**133,725**	132,911
Nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ar gyfartaledd	**5**	5

Cyflog Cadeirydd y Comisiwn oedd £3,227 (2003-04: £3,630). Talwyd llai na £5,000 yr un i aelodau eraill y Comisiwn.

Mae uwch staff y Comisiwn wedi llofnodi contractau cyflogaeth safonol y Cynulliad, nad ydynt yn darparu ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth breifat am eu tâl etc. Yn ogystal, mae gan bob aelod o'r Comisiwn hawliau statudol i breifatrwydd o dan ddeddfwriaeth y Deddfau Diogelu Data ac Iawnderau Dynol. O ganlyniad, mae'r uwch staff wedi cadw gwrthod eu caniatâd i'w manylion preifat gael eu cyhoeddi, fel a ganiateir gan gyfarwyddyd Trysorlys Ei Mawrhydi DAO (GEN) 12/00.

Edward Lewis
Ysgrifennydd a Swyddog Cyfrifo
22 Mehefin 2005